



Teimlo'r straen

Gofal i gleifion mewn
GIG sydd dan bwysau
yng Nghymru

Prosiect:
Iechyd

‘Mae fel petai’n gwaethygu, o un flwyddyn i’r llall. Mae’r mis Ionawr hwn yn bendant wedi bod yn waeth nag erioed ac rwy’n poeni na fyddwn yn gallu cynnal pethau am lawer mwy.’

Meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth aciwt, GIG Cymru

Fe wnaeth Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) yn ddiweddar gynnal arolwg ciplun lle gofynnem i’n haelodau ddweud wrthym am eu profiadau ar y rheng flaen. Ar draws Cymru, mae meddygon ymgynghorol a meddygon dan hyfforddiant yn gweithio wrth ddrws ffrynt yr ysbyty ac ar y wardiau, yn delio â chleifion difrifol wael ar draws 30 o arbenigeddau meddygol, gan gynnwys diabetes, strôc, cardioleg a meddygaeth resbiradol. Mae’r meddygon yma yn arwain gofal amlddisgyblaethol miloedd o bobl, bob dydd, gan weithio gyda’u cydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a chymdeithasol i sicrhau bod cleifion yn gwbl ganolog i’n GIG. Er gwaethaf eu gwaith caled, mae’r meddygon hyn yn ei chael yn anodd ymdopi.

Yn ein holl ysbytai, rydym bellach yn gweld effaith system gofal cymdeithasol sydd wedi cael ei thanariannu yn y gorffennol. Mae’n rhaid inni drawsnewid GIG tameidiog drwy gynllunio’n well mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn anad dim, mae angen inni roi i feddygon y rheng flaen – a’uartneriaid ym maes gofal cymdeithasol – yr amser a’r lle i arloesi, a’r rhyddid a’r gefnogaeth i gamu’r tu hwnt i furiau eu sefydliad.

Cadw cleifion yn ddiogel



Diogelwch cleifion. Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr wrthym fod diogelwch cleifion yn eu hysbyty wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf.^a

‘Mae galw cynyddol [ochr yn ochr â] diffyg gwelyau cynyddol yn golygu bod cleifion yn aml yn cael eu nyrsio ar droliâu yng nghoridorau Adrannau Damweiniau ac Argyfyngau. Mae hefyd yn anodd iawn yn aml dod o hyd i le addas i weld cleifion ac mae hynny’n golygu eu bod yn aros yn hwy i gael eu gweld. Ddwy flynedd yn ôl, caeodd y bwrdd iechyd nifer o welyau cymunedol ac mae hynny hefyd wedi gwaethygu’r sefyllfa.’

Meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth aciwt, GIG Cymru



Cau gwelyau. Dywedodd dros draean o’r ymatebwyr wrthym eu bod wedi gweld gwelyau yn cael eu cau yn eu hysbyty yn y 12 mis diwethaf, er gwaetha’r galw.^b

‘Mae niferoedd y gwelyau wedi bod yn gostwng yn raddol ac o’r herwydd caiff cleifion yn aml eu hanfon i leoliadau anaddas neu i wardiau amhriodol. Mae prinder staff (sy’n effeithio ar nid yn unig y niferoedd, ond hefyd y gymysgedd sgiliau) a’r pwysau i ryddhau cleifion yn cyfrannu ymhellach [at yr her].’

Meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth geriatrig, GIG Cymru

^a 49 allan o 94 o ymatebwyr

^b 34 allan o 94 o ymatebwyr



Tanstaffio a morâl y gweithlu.

Dywedodd pedwar allan o bob pump o ymatebwyr wrthym eu bod wedi gweld prinder staff ar draws y tîm yn y 12 mis diwethaf,^c a dywedodd tri chwarter wrthym fod gweithlu'r GIG wedi digalonni.^d Dywedodd tri allan o bob deg o ymatebwyr wrthym eu bod yn bryderus bod hyn wedi cyfrannu at ofal is ei safon i gleifion.^e

‘Mae gennym eisoes lai na'r nifer a argymhellir o oncolegwyr ymgynghorol. Yn 2016 fe wnaethom hysbysebu swyddi ac ni wnaeth neb ymgeisio. Rwy'n besimistaidd ynglŷn â gallu'r bwrdd iechyd i lenwi swyddi ymgynghorol gwag. Gyda thriniaethau ar gyfer canser yn mynd yn fwyfwy cymhleth, bydd ein gwasanaethau yn cael eu hymestyn i'r eithaf.’

Meddyg ymgynghorol ym maes oncoleg feddygol, GIG Cymru



Y galw ar wasanaethau.

Dywedodd bron dri chwarter yr ymatebwyr y bu cynnydd mawr yn y galw ar y GIG yn y 12 mis diwethaf.^f

‘Mae galw nas gwelwyd ei fath o'r blaen yn golygu bod rhai cleifion yn cael gofal is na'r safon. Mae oedi wrth y drws ffrynt a achosir gan ddiffyg gwelyau cymunedol yn golygu bod bywydau'n cael eu rhoi mewn perygl gyda phobl wael yn aros mewn ambiwlansys.’

Meddyg ymgynghorol ym maes cardioleg, GIG Cymru

Cael cleifion adref



Oedi wrth drosglwyddo gofal.

Dywedodd hanner yr ymatebwyr fod y rhain wedi cynyddu yn y 12 mis diwethaf^g ac roedd dros dri chwarter wedi wynebu oedi oherwydd diffyg capasiti yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol.^h

‘Ar hyn o bryd rydym yn rhedeg gwasanaeth brys o ystafell aros neu ar droliâu yn y coridor. Mae hyn yn cyfaddawdu'r gofal rydym yn ei gyflenwi ac mae'n digalonni'r gweithlu. Er gwaethaf ymgyrchoedd recriwtio, ceir uwch swyddi gwag heb eu llenwi ac mae hyn yn debygol o waethygu ... Oni fydd yr amodau gwaith yn gwella ar gyfer pawb sy'n gweithio ar draws y GIG bydd yn mynd yn rhy fregus i'w drwsio.’

Meddyg ymgynghorol ym maes meddygaeth aciwt, GIG Cymru

Achub cam cleifion



Chwythu'r chwiban.

Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr wrthym nad oeddent yn teimlo'n hyderus i godi pryderon a phroblemau yn eu sefydliad, gan gynnwys rhai yn ymwneud â thryloywder a diogelwch cleifion, ac mae hynny'n peri pryder.ⁱ Dywedodd mwy na dwy ran o dair wrthym eu bod yn bryderus neu'n bryderus iawn ynglŷn â gallu eu gwasanaeth i ddarparu gofal diogel i gleifion.^j

‘Diwylliant sy'n barod iawn i feio'r rheini sy'n codi llais sydd gennym, ynghyd â diffyg gweithredu ar y gorau neu elyniaeth ar y gwaethaf gan staff gweinyddu a rheoli.’

Meddyg iau, GIG Cymru

^c 78 allan o 94 o ymatebwyr, ^d 69 allan o 94 o ymatebwyr
^e 29 allan o 94 o ymatebwyr, ^f 68 allan o 94 o ymatebwyr

^g 48 allan o 94 o ymatebwyr, ^h 73 allan o 94 o ymatebwyr
ⁱ 50 allan o 94 o ymatebwyr, ^j 65 allan o 94 o ymatebwyr

Amser gweithredu



Mwy o ofal arbenigol yn cael ei ddarparu yn y gymuned.

Dylai meddygon a thimau meddygol arbenigol dreulio mwy o amser yn gweithio yn y gymuned er mwyn darparu gofal mwy arbenigol yng nghartref y claf, neu'n agos ato. Dylai rôl y meddyg cymunedol gael ei ddatblygu.



Ffyrdd newydd o gyfathrebu.

Dylai mwy o gleifion fod yn gallu cyfathrebu gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gan ddefnyddio telefeddygaeth, er mwyn lleihau'r pwysau ar welyau ysbyty. Mae gwir angen gwella'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol a gofal cymdeithasol, a chyflwyno cofnodion cleifion electronig i arbed amser a gwella diogelwch cleifion.



Chwalu'r rhwystrau i ddarparu gofal i gleifion.

Dylai Cymru fynd ati i hyrwyddo ei hun fel lle i ddatblygu sgiliau arbenigol iawn mewn meddygaeth wledig a chymunedol, gyda meddygon yn gweithio ar y cyd â'u partneriaid mewn timau gofal cymdeithasol a chymunedol. Mae dull gweithredu system gyfan ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn awr yn ofynnol er mwyn delio ag effaith y pwysau a deimlir oddi wrth ofal heb ei drefnu.

Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)
Ty Baltic, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

E-bost wales@rcplondon.ac.uk
Dilynwch ni @RCPWales

www.rcplondon.ac.uk/wales



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Cymryd rhan

Ar wefan RCP, gallwch ddarllen am enghreifftiau o arfer arloesol a gwrando ar feddygon yn siarad am sut maent wedi sicrhau newid yn eu hysbyty nhw. Gallwch hefyd ddylanwadu ar waith yr RCP yng Nghymru drwy anfon eich sylwadau, syniadau ac enghreifftiau o arfer da atom.

Er mwyn helpu i siapio dyfodol gofal meddygol yng Nghymru, ewch i rcplondon.ac.uk/wales

Rhowch wybod inni beth ydych chi'n feddwl – neu i gael rhagor o wybodaeth – e-bostiwch wales@rcplondon.ac.uk

Trydarwch eich cefnogaeth

@RCPWales

#MedicineisBrilliant

#MeddygaethynWych

@RCPWales

